**Alun Ffred Jones AC/AM**
**Y Gweinidog dros Dreftadaeth**
**Minister for Heritage**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Yr Athro Dai Smith
Cadeirydd
Cyngor Celfyddydau Cymru
9 Stryd yr Amgueddfa
Caerdydd
CF10 NX

DD/MM/YY

**LLYTHYR CYLCH GWAITH CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU 2008-09**

Mae agenda strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2007-2011 yn cael ei hamlinellu yn y ddogfen *Cymru'n Un*. Mae'r agenda hon yn cynnwys ymrwymiadau ynghylch cenedl gref a hyderus, dyfodol iach, cymdeithas ffyniannus, cymunedau byw, dysgu i fyw, cymdeithas deg a chyfiawn, amgylchedd cynaliadwy, diwylliant cyfoethog ac amrywiol a threfniadau llywodraethu. Uchelgais *Cymru'n Un* yw "gweddnewid Cymru a'i throi'n genedl a chymdeithas hyderus, ffyniannus, sy'n deg â phawb".

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi cyllid i Gyngor Celfyddydau Cymru gyflawni ei hamcanion polisi strategol fel y'u hamlinellir yn *Cymru'n Un*. Mae'r llythyr cylch gwaith hwn yn amlinellu eich rôl chi o ran rhoi'r agenda strategol honno ar waith, gan gynnwys y blaenoriaethau strategol a gweithredol yr wyf yn disgwyl iddynt gael eu cyflawni yn 2009-10. Dylai hyn fod yn sail i Gynllun Gweithredol Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer 2009-10. Nid yw bellach yn ofynnol i chi ddarparu Cynllun Corfforaethol bob blwyddyn, er bod rhwydd hynt i chi wneud hynny os dyna'ch dymuniad. Er hynny, hoffwn weld Cyngor Celfyddydau Cymru yn cynnwys yn ei Gynllun Gweithredol blynyddol ddatganiad hirdymor strategol sy'n ymdrin â'r cyfnod nesaf o dair blynedd. Bydd gofyn i chi gyflwyno eich Cynllun Gweithredol terfynol erbyn canol mis Mawrth 2009.

Er mai hwn yw'r cyfle cyntaf i mi fynd ati'n ffurfiol i amlinellu'r hyn sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn golwg ar gyfer y celfyddydau, yr wyf yn gwneud hynny wrth i ni

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8015
correspondence.alun.ffred.jones @wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

agosáu at hanner ffordd drwy dymor y Llywodraeth hon sydd, fel y mae'n digwydd, yn cyd-daro â chanol cylch gwariant tair blynedd. O'r herwydd, nid wyf yn cynnig y dylai Cyngor Celfyddydau Cymru newid ei bolisïau na'i gyfeiriad yn sylweddol. A dweud y gwir, hoffwn weld Cyngor Celfyddydau Cymru yn adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, yr wyf yn disgwyl i Gyngor Celfyddydau Cymru dreulio'i amser, canolbwyntio'i ymdrechion a defnyddio'i adnoddau ar y meysydd blaenoriaeth strategol a gweithredol a ganlyn:

## Blaenoriaethau Strategol

### 1. Hyrwyddo'r celfyddydau

1.1 Cyfrannu at flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y celfyddydau a diwylliant drwy fynd ati'n benodol i fuddsoddi mewn gwaith i sicrhau bod celfyddydau o ansawdd uchel o fewn cyrraedd i ragor o bobl, a bod mwy o gyfle i bawb gymryd rhan ynddynt, yn enwedig mewn ardaloedd o amddifadedd.

1.2 Mynd ati i ymgysylltu â CNLCau eraill, Adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru a sefydliadau allanol, gan hyrwyddo natur drawsbynciol y celfyddydau. Yn benodol, parhau i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth er mwyn dangos yr effaith gadarnhaol y mae'r celfyddydau'n gallu ei chael mewn sectorau eraill, megis iechyd, addysg a'r economi.

1.3 Parhau i weithio gyda Chyngor Chwaraeon Cymru er mwyn datblygu mwy ar gynlluniau peilot ar gyfer ysgolion Sadwrn ac ysgolion haf mewn chwaraeon, cerddoriaeth a'r celfyddydau. Dylech fynd ar drywydd y cyfleoedd a fyddai'n deillio o gynllun ar y cyd rhwng y naill gorff a'r llall

1.4 Hyrwyddo proffil rhyngwladol y celfyddydau yng Nghymru drwy barhau i gefnogi cyfleoedd i artistiaid ac i gynhyrchwyr artistig Cymru gymryd rhan ar y llwyfan rhyngwladol.

1.5 Dechrau rhoi'r Strategaethau Ffurfiau ar Gelfyddyd ar waith, gan gofio amcanion gwreiddiol y strategaethau hyn, sef anelu at gynnal a datblygu'r ffurfiau ar gelfyddyd, anelu at sicrhau bod celfyddydau o ansawdd uchel o fewn cyrraedd i ragor o bobl, rhoi mwy o gyfle i bawb gymryd rhan yn y celfyddydau, a cheisio datblygu mwy ar y cysylltiadau â sectorau eraill.

### 2. Cyllid

2.1 Adeiladu ar y gwaith cychwynnol a wnaed i adolygu trefniadau cyllido ac i ystyried modelau cyllido amgen. Dylech gydweithio'n agos â'r Gangen Noddi i ddatblygu strategaeth gyllido sy'n golygu bod sail fwy cynaliadwy i'r modd y cyllidir y sefydliadau sy'n cael cyllid refeniw oddi wrth Gyngor y Celfyddydau. Ni ddylai'r strategaeth hon fod yn ddibynnol ar y trefniadau cyllido presennol nac ar drefniadau cyllido hanesyddol. Dylech edrych o'r newydd at y strategaeth gyllido a bod yn barod i fynd ati o ddifrif i ystyried a yw'r buddsoddiad presennol yn effeithiol ai peidio. Rydym am weld cynigion uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol. Rhaid anelu at greu sector celfyddydau bywiog a deinamig, sy'n fwy abl i gynnig gweithgarwch celfyddydol o'r radd flaenaf i gynulleidfaoedd ac i gyfranogwyr ledled Cymru. Yr wyf yn llawn sylweddoli bod yr uchelgais hwn yn un hirdymor, ond er hynny, yr wyf yn disgwyl cael

yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt y gwaith hwn yn ein cyfarfodydd chwe-misol, ac adroddiad ffurfiol yn ei gylch erbyn mis Mawrth 2010.

2.2 Cydweithio â CNLCau ac adrannau eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn ymchwilio i ffynonellau cyllid amgen, yn enwedig cyllid Ewropeaidd.

2.3 Codi ymwybyddiaeth y sector celfyddydau am gyfleoedd i fanteisio ar gyllid Ewropeaidd a'i annog i fod yn rhan o brosiectau trawswladol.

**3. Gweithredu ar Adroddiad Stephens**

3.1 Cydweithio â Bwrdd Strategaeth y Celfyddydau i barhau i weithredu argymhellion Adroddiad Stephens. Bydd hyn yn cynnwys:

3.1.1 Cynorthwyo Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu polisïau a strategaethau ar y celfyddydau gyda Bwrdd Strategaeth y Celfyddydau.

3.1.2 Cydweithio â Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i dreialu ffyrdd newydd o sefydlu partneriaethau rhanbarthol, gan wneud hynny erbyn mis Tachwedd 2009.

3.1.3 Parhau i ganolbwyntio ar y rôl ddatblygu sydd gan Gyngor y Celfyddydau

3.1.4 Cydweithio â'r Gangen Noddi i ystyried sut y gellir comisiynu a defnyddio gwaith ymchwil mewn modd mwy effeithiol a strategol.

3.1.6 Cydweithio ag Arts & Business Cymru, drwy Fwrdd Strategaeth y Celfyddydau, i ddatblygu mwy ar ffynonellau cyllid preifat ar gyfer y celfyddydau.

3.2 Yn 2008-09, cafodd cyllid ei ddyrannu'n benodol ar gyfer datblygu cwmnïau ac unigolion disglair, er mwyn ysgogi newid o fewn sector y celfyddydau gan sicrhau bod yr arferion gorau yn cael eu gwobrwyo a gweithgarwch newydd ac arloesol yn cael ei annog. Hoffwn i chi fonitro effaith y cyllid hwn a roddir ar gyfer Dyfarniadau Disglair, gan ddangos y newidiadau y llwyddwyd i'w sicrhau drwy'r buddsoddiad ychwanegol. Dylech gyflwyno adroddiad llawn am eich canfyddiadau ac am eich argymhellion ar gyfer y drydedd flwyddyn gyllido, gan wneud hynny erbyn mis Rhagfyr 2009.

**4. Datblygu'r Theatr**

4.1 Yng ngoleuni'r adnoddau ychwanegol, parhau i ddatblygu cynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer datblygu Theatr Genedlaethol Iaith Saesneg i Gymru.

4.2 Parhau i weithio gyda'r Gangen Noddi a Bwrdd *National Theatre of Wales* i ddatblygu cynllun gwaith y cytunwyd arno ar gyfer 2009-10 a 2010-11, gan sicrhau bod yr adnoddau ychwanegol yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol. Sicrhau bod yr adnoddau ychwanegol yn cael eu monitro'n effeithiol.

4.3 Parhau i ddatblygu Theatr Iaith Gymraeg yng Nghymru.

**Blaenoriaethau Gweithredol**

**1. Canolfan Mileniwm Cymru**

1.1 Cydweithio â Chanolfan Mileniwm Cymru i ddatblygu mwy ar gyfraniad y Ganolfan i'r celfyddydau yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys ystyried sut orau y gall y Ganolfan weithio gyda lleoliadau a sefydliadau eraill yng Nghymru ar fentrau ar y cyd, megis rhannu hyfforddiant.

1.2 Cydweithio â Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chanolfan Mileniwm Cymru i ddatblygu gweledigaeth greadigol y Ganolfan ar gyfer y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda'r sefydliadau preswyl i annog a datblygu cydweithio rhwng y sefydliadau hynny.

1.3 Sicrhau bod y dyraniad cyfredol o £800,000 ar gyfer y sefydliadau preswyl yng Nghanolfan Mileniwm Cymru yn cael ei fonitro'n effeithiol.

**2. Strategaeth Ddiwylliant**

2.1 Cydweithio â Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu Strategaeth Ddiwylliant newydd i Gymru. Bydd gofyn cydweithio â'r Gangen Noddi er mwyn mynd ati i ddatblygu mwy ar y weledigaeth strategol ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru yn y dyfodol, fel y'i hamlinellir yn *Cymru'n Un*.

2.2 Cydweithio â'r Gangen Noddi i ddatblygu fframwaith monitro a gwerthuso priodol, er mwyn sicrhau bod modd gwireddu'r weledigaeth strategol ar gyfer y celfyddydau.

**3. Y Celfyddydau y Tu Allan i Gaerdydd**

3.1 Parhau i ddatblygu'r rhwydwaith o ganolfannau celfyddydau perfformio drwy'r cyllid a ddarperir ar gyfer y Celfyddydau y Tu Allan i Gaerdydd.

3.2 Sicrhau bod y cyllid hwnnw'n creu cyfleoedd i gynhyrchu ac i gyflwyno gweithgarwch celfyddydol o ansawdd uchel y tu allan i Gaerdydd.

3.3 Gwerthuso cynllun y Celfyddydau y Tu Allan i Gaerdydd ar ddechrau pumed flwyddyn y cynllun, gan sicrhau ei fod yn gydnaws ag amcanion strategol Cyngor Celfyddydau Cymru a'i fod yn ategu ffynonellau cyllido sy'n bodoli eisoes.

**4. Canolfan Mentrau Diwylliannol Merthyr Tudful**

4.1 Parhau i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gynlluniau i ddatblygu Canolfan Mentrau Diwylliannol ym Merthyr Tudful.

**5. Yr Olympiad Diwylliannol**

5.1 Arwain Grŵp Cynghori'r Olympiad Diwylliannol er mwyn datblygu cynigion Cymru ar gyfer yr Olympiad Diwylliannol.

**6. Monitro Perfformiad**

6.1 Cydweithio â'r Gangen Noddi i ddatblygu dangosyddion perfformiad priodol er mwyn monitro cynnydd o ran y blaenoriaethau strategol.

6.2 Cydweithio â'r Gangen Noddi i sicrhau bod yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol nesaf yn barod erbyn 31 Hydref.

Amlinellir yn Atodiad A y Cymorth Grant a roddir i Gyngor Celfyddydau Cymru yn 2009/10 er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau hyn.

**Cyfathrebu**

Hoffwn i chi barhau i gydweithio'n agos â fy swyddogion i adrodd am y dystiolaeth sylweddol sydd ar gael am arferion da, er mwyn i ni fedru'r adlewyrchu'r dystiolaeth honno'n well mewn deunyddiau cyfathrebu ynghylch cyllid oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru. Dylai hyn gynnwys datblygu cynllun cyfathrebu ar y cyd, a fydd yn amlinellu amcanion cyffredin, protocolau a ffyrdd o gydweithio er mwyn dwyn sylw at flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y celfyddydau a diwylliant yng Nghymru. Dylai'r cynllun hefyd gynnwys trefniadau ar gyfer mesur ac adrodd am effeithiolrwydd wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid ac o ran dangos y cynnydd a wnaed.

Dylai'r blaenoriaethau cyfathrebu ar gyfer eleni gynnwys gweithgareddau penodol yn ymwneud â datblygu partneriaethau rhanbarthol, yr adolygiad o'r modd y mae'r celfyddydau'n cael eu cyllido, a'r gwaith sy'n mynd rhagddo i sefydlu Theatr Genedlaethol Iaith Saesneg i Gymru.

**Sut i fynd ati i gyflenwi**

Dylech fynd ati yn eich Cynllun Corfforaethol a'ch Cynllun Gweithredol i amlinellu'r targedau effeithlonrwydd a'r camau gweithredu allweddol cysylltiedig yn eich Cynllun Gweithredu Gwerth am Arian. Dylech nodi ynddynt hefyd sut y byddwch yn gweithredu'r safonau craidd ar gyfer gwasanaethau i gwsmeriaid a amlinellir yn *Cyflawni'r Cysylltiadau* ac yn Egwyddorion Craidd Gwasanaethau i Gwsmeriaid a'r canllawiau ar arferion da a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2007 yn *Creu'r Cysylltiadau – Creu Gwell Gwasanaeth i Gwsmeriaid.*

Bydd angen i chi hefyd ddangos y berthynas rhwng gweithgareddau a'r modd y dyrennir adnoddau, o ran cyllid ac o ran staff, gan nodi hefyd y trefniadau ar gyfer asesu pa mor effeithiol yw rhaglenni'r Cyngor.

Dylech hefyd nodi yn y cynlluniau hyn sut y byddwch:

- yn cefnogi'r gwaith o weithredu Cynllun Gofodol Cymru, a'r Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy;
- yn cefnogi'r gwaith o weithredu Strategaethau Cymunedol yr awdurdodau lleol;
- yn ymgysylltu â'r Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf perthnasol, lle bo hynny'n briodol, er mwyn eu cynorthwyo i gyflenwi Cynlluniau Gweithredu Cymunedol;
- yn prif ffrydio datblygu cynaliadwy[1], cydraddoldeb[2], gweithio mewn partneriaeth[3], a hyrwyddo'r Gymraeg[4] wrth i chi gynnal eich busnes (gan gynnwys gwneud hynny yn eich gwaith rheoli ystadau, yn eich

[1] Adran 79 Deddf Llywodraeth Cymru 2006
[2] Adran 77 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, a dyletswyddau sector cyhoeddus ychwanegol a grëwyd gan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000, Deddf gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005 a Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975 (Awdurdodau Cyhoeddus) (Dyletswyddau Statudol) 2006
[3] Mae gan y Cynulliad ddyletswydd dan adrannau 73, 74 a 75 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 i hybu buddiannau Llywodraeth Leol, y Sector Gwirfoddol a'r Sector Busnes.
[4] Fel y nodir yn adran 78 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

prosesau caffael ac yn eich gweithgareddau rhaglen) ac yn cydymffurfio â dyletswyddau statudol perthnasol.

Nid wyf yn bwriadu ailadrodd y canllawiau a roddwyd y llynedd ar Gaffael, Cyllid Ewropeaidd neu Ddiogelwch Data ond afraid dweud bod y canllawiau hyn yn dal i fod yn berthnasol ac y dylid eu cadw mewn cof wrth i chi fynd ati i gynnal eich busnes yn ôl eich arfer.

**Alun Ffred Jones AC/AM**
Y Gweinidog dros Dreftadaeth

## Atodiad A

## Cymorth Ariannol

Amlinellir isod y Cymorth Grant a roddir i Gyngor Celfyddydau Cymru yn 2009-10 er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau hyn. Yr wyf yn disgwyl i chi amlinellu yn eich Cynllun Gweithredol ar gyfer 2009-10 sut yr ydych yn bwriadu dyrannu'r cymorth ariannol hwn yn unol â'r blaenoriaethau ac ar draws feysydd rhaglen neu themâu. Dylech hefyd fanylu ar yr amcanion / dangosyddion perfformiad / targedau / cerrig milltir o dan bob maes rhaglen neu thema, gan nodi pa amcan neu darged lefel uchel y maent yn gysylltiedig â hwy.

Cyflwynir manylion y cymorth grant ar gyfer y cyfnod 2009-10 yn y tablau isod. Bydd cyllideb cymorth grant Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer y blynyddoedd ariannol y tu hwnt i 2009-10 yn cael ei hystyried yng nghyd-destun sefyllfa gyllidebol ehangach Llywodraeth Cynulliad Cymru. Byddwn yn ysgrifennu atoch eto cyn gynted ag y bo modd er mwyn cadarnhau'ch cyllidebau dangosol ar gyfer blynyddoedd y dyfodol. Mae'r grant yn cael ei dalu ar yr amod eich bod yn cydymffurfio â Datganiad Rheoli a Memorandwm Ariannol Cyngor Celfyddydau Cymru. Yr wyf yn disgwyl i chi gadw mewn cysylltiad agos â'r Gangen Noddi a'i hysbysu ar unwaith am unrhyw newidiadau yn eich sefyllfa ariannol.

### Costau rhedeg

| | **Cynlluniau 2009-10 £000** |
|---|---:|
| Costau Rhedeg | 2,442 |
| Dibrisiant/Cost Cyfalaf# | 389 |
| **Cyfanswm** | **2,831** |

# Eitem heb fod yn arian parod yw hon ac ni fydd ar gael i'w thynnu i lawr yn ystod y flwyddyn

### Y Gronfa Ddiwylliant

| **£000s** | **Cynlluniau 2009-10 £000** |
|---|---:|
| Gwariant Cyfredol | 25,538 |
| Ymrwymiadau Cymru'n Un | 2,625 |
| Derbyniadau Cyfredol | -15 |
| Gwariant Cyfalaf | 55 |
| **Cyfanswm** | **28,203** |

### Elfennau ar gyfer 2009/10 yn unig:

£2 miliwn ar gyfer rhaglen y Celfyddydau y Tu Allan i Gaerdydd;
£1.75 miliwn ar gyfer Theatr Iaith Saesneg;
£1.5 miliwn ar gyfer cronfa deilyngdod ar gyfer Cwmnïau Disglair;
£800,000 ar gyfer cwmnïau preswyl Canolfan Mileniwm Cymru;
£150,000 ar gyfer y Touch Trust;
£125,000 ar gyfer cynlluniau peilot ysgolion Sadwrn ac ysgolion haf mewn chwaraeon, cerddoriaeth a'r celfyddydau;
£50,000 ar gyfer Gwobr Artes Mundi;*

£50,000 ar gyfer Arts & Business Cymru.*

*Darperir canllawiau pellach am y posibilrwydd o neilltuo'n benodol ar gyfer yr eitemau hyn unwaith y daw cyngor i law oddi wrth yr is-adrannau sy'n bartneriaid.

**CYFANSWM y Cymorth Grant**

| | **Cynlluniau 2009-10** |
|---|---|
| £,000 | **31,034** |

**Blynyddoedd y dyfodol**

Cyfanswm y cymorth grant a nodir uchod yw'r uchafswm a ddarperir ac mae'n seiliedig ar adnoddau. Y swm a ddarperir ar gyfer 2009-10 yw cyfanswm y cymorth grant a gymeradwywyd. Mae'r gwaith o baratoi gwybodaeth bellach am y sefyllfaoedd ariannol ar gyfer blynyddoedd y dyfodol yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a chaiff cyngor am y mater hwn ei roi cyn gynted ag y bo modd i'r cyrff hynny y mae hyn yn effeithio arnynt. Mae taliadau cymorth grant yn parhau i fod yn amodol ar gydymffurfio â chynnwys y Datganiad Rheoli a'r Memorandwm Ariannol.